# Cynnwys


## Gwirio'ch amgylchiadau personol ac unrhyw newidiadau

| | |
|---|---|
| **Amdanoch chi** | Tudalen 3 |
| Hawliadau sengl ac ar y cyd | Tudalen 3 |
| Os gwnaethoch hawlio fel person sengl | Tudalen 3 |
| Os gwnaethoch hawlio gyda rhywun arall | Tudalen 3 |
| Ble rydych yn byw | Tudalen 3 |
| Anabledd – oedolion | Tudalen 4 |
| Eich gwaith, budd-daliadau a chyflogaeth | Tudalen 4 |
| **Ynglŷn â'ch plant a phobl ifanc** | Tudalen 5 |
| Amodau cymhwyso ar gyfer pobl ifanc | Tudalen 5 |
| Addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch | Tudalen 5 |
| Hyfforddiant cymeradwy | Tudalen 5 |
| Anabledd – plant a phobl ifanc | Tudalen 7 |
| Costau gofal plant | Tudalen 8 |
| **Eich incwm** | Tudalen 8 |

## Gwneud eich datganiad

| | |
|---|---|
| **Nodi manylion eich incwm** | Tudalen 9 |
| Budd-daliadau penodol | Tudalen 9 |
| Budd-daliadau nawdd cymdeithasol trethadwy | Tudalen 9 |
| Enillion fel cyflogai o bob swydd | Tudalen 10 |
| Car cwmni a thanwydd, talebau trethadwy a buddiannau o bob swydd | Tudalen 10 |
| Incwm o hunangyflogaeth | Tudalen 11 |
| Cyfanswm incwm arall | Tudalen 12 |
| Taflenni gwaith i'ch helpu i gyfrifo'ch incwm | Tudalen 14 |

## Gwneud eich Datganiad o Ddyfarniad

| | |
|---|---|
| Rhagor o wybodaeth | Tudalen 22 |

# Rhan 2 – Manylion incwm

## Blwch 2.2 ar eich Datganiad o Ddyfarniad – Enillion fel cyflogai o bob swydd

Nodwch gyfanswm eich enillion o bob swydd yn ystod cyfnod y dyfarniad. Defnyddiwch eich P45 neu slipiau cyflog gan eich cyflogwr i'ch helpu i gyfrifo'ch enillion ar gyfer cyfnod y dyfarniad. Os yw buddiannau wedi'u cynnwys yn yr incwm a enillwyd gennych, gweler blwch 2.3.

## Sut i gyfrifo'ch incwm ar gyfer cyfnod eich dyfarniad

Mae angen i chi roi gwybod i ni beth yw cyfanswm eich incwm ar gyfer cyfnod y dyfarniad a ddangosir ar eich Adolygiad o Ddyfarniad.

Gallwch ddefnyddio'ch slip cyflog diwethaf cyn y dyddiad y daeth cyfnod eich dyfarniad i ben. Er enghraifft, os daeth cyfnod eich dyfarniad i ben ar 5 Hydref, ac rydych yn cael eich talu'n fisol, dylech ddefnyddio'ch slip cyflog ar gyfer mis Medi. Os ydych yn cael eich talu'n wythnosol, defnyddiwch eich slip cyflog diwethaf sy'n dangos y cyflog a gafwyd ar neu cyn 5 Hydref. Defnyddiwch y ffigur 'Cyfanswm cyflog hyd yma' ar y slip cyflog hwn.

Os oes gennych P45 am eich bod wedi rhoi'r gorau i weithio yn ystod cyfnod y dyfarniad, defnyddiwch y ffigur 'Cyfanswm cyflog hyd yma'.

## Didyniadau

Efallai nad yw'ch cyflogwr wedi rhoi gwybod i ni am y didyniadau sy'n cael eu prosesu drwy'ch cyflogres. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- cyfraniadau pensiwn rydych yn eu gwneud i gynllun cofrestredig a delir allan o'ch incwm net, gan gynnwys unrhyw ryddhad treth sy'n ddyledus – peidiwch â didynnu cyfraniadau a delir allan o'ch incwm gros
- y swm gwirioneddol a delir, hyd at £100 am bob taliad wythnosol o Dâl Mamolaeth Statudol, Tâl Tadolaeth Statudol, Tâl Statudol ar y Cyd i Rieni, Tâl Statudol Rhieni mewn Profedigaeth a Thâl Mabwysiadu Statudol
- treuliau gwaith nad ydynt wedi'u had-dalu i chi gan eich cyflogwr

Cyfrifwch unrhyw ddidyniadau y gallwch eu gwneud ar gyfer cyfnod y dyfarniad, cyn nodi ffigur ar gyfer incwm ym mlwch 2.2. Dim ond taliadau gwirioneddol yr ydych wedi eu gwneud neu eu cael yn ystod cyfnod y dyfarniad ar eich Adolygiad o Ddyfarniad y gallwch eu didynnu.

**Gallwch ddefnyddio Taflen Waith 1 ar dudalennau 14 ac 15 i'ch helpu.**

## Blwch 2.3 ar eich Datganiad o Ddyfarniad – Car cwmni a thanwydd, talebau trethadwy a buddiannau o bob swydd

## Buddiannau a dalwyd drwy'r gyflogres

Mae'n bosibl y bydd Cam B o'ch Adolygiad o Ddyfarniad yn dangos buddiannau a dalwyd drwy'r gyflogres a gawsoch yn ystod cyfnod y dyfarniad. Gallai'r rhain fod yn fuddiannau a roddwyd gan eich cyflogwr nad ydynt ar ffurf arian parod, er enghraifft, ffôn symudol neu gar cwmni, ar ben eich cyflog arferol. Mae'n bosibl bod eich cyflogwr wedi cynnwys y buddiannau hyn yn y ffigur ar gyfer incwm a enillwyd ar eich slipiau cyflog.

Os felly:

- didynnwch swm yr holl fuddiannau a dalwyd drwy'r gyflogres o'r ffigur ar gyfer cyfanswm y cyflog hyd yma ar eich slip cyflog
- nodwch y ffigur sy'n weddill ar gyfer incwm a enillwyd ar frig Taflen Waith 1, a dilynwch y camau i gyfrifo'r ffigur incwm i'w nodi ym mlwch 2.2

## Buddiannau na chânt eu talu drwy'r gyflogres

Bydd angen i chi gynnwys rhai buddiannau nad ydych wedi'u cael drwy'r gyflogres, er enghraifft, ffôn symudol neu gar cwmni.

Efallai y gallwch ddod o hyd i fanylion buddiannau perthnasol drwy gyfeirio at wybodaeth y mae'ch cyflogwr wedi'i rhoi, megis ar slipiau cyflog neu yn nhelerau ac amodau'ch cyflogaeth, ar eich P11D o flwyddyn flaenorol (pan fo'ch buddiannau wedi aros yr un fath) neu ar Hysbysiadau Cod P2 yr ydych wedi'u cael.

**Defnyddiwch Daflen Waith 2 ar dudalennau 16 ac 17 i gyfrifo'r buddiannau yr ydych wedi'u cael ac y mae angen i chi eu dangos ym mlwch 2.3.**

Ar gyfer ceir cwmni a thanwydd, ewch i www.gov.uk/cyfrifo-treth-ar-geir-cwmni a defnyddio cyfrifiannell CThEF, neu ffoniwch ein llinell gymorth.

## Blwch 2.4 ar eich Datganiad o Ddyfarniad – Incwm o hunangyflogaeth

Mae angen i chi gyfrifo'ch elw trethadwy ar gyfer cyfnod eich dyfarniad credydau treth a chynnwys hwn ym mlwch 2.4 ar eich Datganiad o Ddyfarniad.

I gyfrifo'ch elw trethadwy:

1. Defnyddiwch eich elw trethadwy amcangyfrifedig realistig neu resymol neu wirioneddol ar gyfer eich cyfnod sail sy'n dod i ben yn y flwyddyn dreth y daeth eich dyfarniad credydau treth i ben. Peidiwch â chynnwys unrhyw elw trosiannol yn y cyfrifiad.
2. Rhannwch y ffigur hwnnw â nifer y diwrnodau yn eich cyfnod sail.
3. Lluoswch y ffigur hwnnw â nifer y diwrnodau yng nghyfnod eich dyfarniad credydau treth a ddangosir yn eich Adolygiad o Ddyfarniad.

Ni ellir newid y ffigur hwn ar ôl y dyddiad 'Ateb cyn' a nodir ar dudalen 1 o'ch Adolygiad o Ddyfarniad, felly dilynwch y camau canlynol a Thaflen Waith 3 ar dudalennau 18 ac 19 i'ch helpu i gyfrifo hyn.

I gael rhagor o wybodaeth ynghylch elw trosiannol, ewch i www.gov.uk/guidance/changes-to-reporting-income-from-self-employment-and-partnerships

**Cam 1 – Cyfrifo'ch elw trethadwy amcangyfrifedig neu wirioneddol ar gyfer eich cyfnod sail**
Os nad yw'ch cyfrifon wedi cael eu paratoi eto ar gyfer eich cyfnod sail sy'n dod i ben yn y flwyddyn dreth pan ddaeth eich dyfarniad credydau treth i ben, bydd angen i chi wneud amcangyfrif realistig a rhesymol o'ch elw trethadwy ar gyfer y flwyddyn dreth. Gallwch seilio'r amcangyfrif hwn ar eich cyfrifon ar gyfer y flwyddyn hyd yma a blynyddoedd blaenorol, eich cynllun busnes ac unrhyw amrywiaeth dymhorol neu waith rydych yn ei ddisgwyl yn y dyfodol.

Dylech gadw nodiadau i ddangos sut y gwnaethoch amcangyfrif hwn, oherwydd mae'n bosibl y bydd angen i ni wirio hwn gyda chi.

Os yw'ch cyfrifon eisoes wedi'u paratoi gan i'ch cyfnod sail ddod i ben yn y flwyddyn dreth hon, byddwch eisoes yn gwybod beth yw'ch elw trethadwy gwirioneddol.

Os gwnaethoch golled, neu os credwch y byddwch yn gwneud colled yn ystod y cyfnod sail hwn, nodwch '0' ym mlwch 2.4 ar eich Datganiad o Ddyfarniad. Gallwch hefyd ddidynnu colledion o incwm arall sydd gennych chi neu'ch partner ar gyfer cyfnod y dyfarniad credydau treth (gweler tudalen 12).

I gael rhagor o gymorth ar 'Sut i gyfrifo'ch elw trethadwy', ewch i GOV.UK a chwilio am HS222.

Pan fyddwch yn gwybod beth yw'ch elw ar gyfer y cyfnod sail, gallwch ddefnyddio'r gyfrifiannell ar-lein i gyfrifo'ch elw ar gyfer cyfnod y dyfarniad – ewch i www.gov.uk/part-year-profit-tax-credits

**Cam 2 – Cyfrifo nifer y diwrnodau yn eich cyfnod sail**
365 fydd hwn ar gyfer blwyddyn dreth lawn (neu 366 ar gyfer blwyddyn naid).

Os ydych wedi dechrau masnachu neu roi'r gorau i fasnachu'n ddiweddar, neu os ydych wedi newid eich dyddiadau cyfrifyddu'n ddiweddar, efallai y bydd eich cyfnod sail yn fyrrach neu'n hirach na blwyddyn. Os felly, gallwch ofyn i'ch ymgynghorydd ariannol, neu wasanaeth ymgynghorol elusennol, am help. Fel arall, ffoniwch ein llinell gymorth.

**Defnyddiwch y taflenni hyn i'ch helpu i gyfrifo'ch incwm.**
**Peidiwch â'u hanfon atom – cadwch nhw ar gyfer eich cofnodion.**

# Taflen Waith 3: Incwm o hunangyflogaeth ar gyfer cyfnod y dyfarniad a ddangosir ar eich Adolygiad o Ddyfarniad (blwch 2.4 ar eich Datganiad o Ddyfarniad)

Cyfrifwch eich elw trethadwy neu golled ar gyfer eich cyfnod sail. Gallai hwn fod yn amcangyfrif realistig a rhesymol os nad yw'ch cyfrifon wedi'u paratoi eto, neu'n ffigur gwirioneddol. Gweler tudalen 11.

| 1 | Chi | £ | Eich Partner | £ |
|---|---|---|---|---|

Cyfrifwch nifer y diwrnodau yn eich cyfnod sail, er enghraifft 365 (neu 366 am flwyddyn naid).

| 2 | Chi | | Eich Partner | |
|---|---|---|---|---|

Rhannwch eich elw trethadwy (blwch 1) â nifer y diwrnodau yn eich cyfnod sail (blwch 2). Bydd hyn yn rhoi cyfradd ddyddiol i chi.

| 3 | Chi | £ | Eich Partner | £ |
|---|---|---|---|---|

Cyfrifwch nifer y diwrnodau yng nghyfnod y dyfarniad pan oeddech yn cynnal eich masnach, proffesiwn neu alwedigaeth.

| 4 | Chi | | Eich Partner | |
|---|---|---|---|---|

**Lluoswch eich cyfradd ddyddiol (blwch 3) â nifer y diwrnodau yng nghyfnod eich dyfarniad pan oeddech yn cynnal eich masnach, proffesiwn neu alwedigaeth (blwch 4).**

| 5 | Chi | £ | Eich Partner | £ |
|---|---|---|---|---|

**Nodwch y swm hwn (blwch 5) ym mlwch 2.4 ar eich Datganiad o Ddyfarniad.**
**Peidiwch a chynnwys ceiniogau. Talgrynnwch i'r punt agosaf.**
Os gwnaethoch golled (neu os credwch y byddwch yn gwneud colled) ar gyfer y cyfnod sail hwn, nodwch '0' ym mlwch 2.4 ar eich Datganiad o Ddyfarniad.

Os oes gennych fwy nag un busnes, dylech fynd drwy bob un o'r camau hyn ar gyfer pob un o'ch busnesau a nodi cyfanswm yr elw o'ch holl fusnesau ym mlwch 2.4 ar eich Datganiad o Ddyfarniad.

**Defnyddiwch y taflenni hyn i'ch helpu i gyfrifo'ch incwm.**
**Peidiwch â'u hanfon atom – cadwch nhw ar gyfer eich cofnodion.**

# Taflen Waith 3: Incwm o hunangyflogaeth ar gyfer cyfnod y dyfarniad a ddangosir ar eich Adolygiad o Ddyfarniad (blwch 2.4 ar eich Datganiad o Ddyfarniad) parhad

## Enghraifft

Mae Berwyn, sy'n blymwr hunangyflogedig, yn hawlio Credyd Cynhwysol ar 1 Rhagfyr 2018. Felly, mae angen iddo lenwi ei Ddatganiad o Ddyfarniad drwy nodi ei elw trethadwy ar gyfer y cyfnod o 6 Ebrill 2018 i 30 Tachwedd 2018. Mae Berwyn yn cyfrifo mai £22,000 yw ei elw trethadwy amcangyfrifedig ar gyfer ei gyfnod sail.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Chi | £22,000 | Eich Partner | £ |

Mae ei gyfnod sail yn rhedeg o 6 Ebrill 2018 i 5 Ebrill 2019 (yr un fath â'r flwyddyn dreth), sef 365 o ddiwrnodau.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2 | Chi | 365 | Eich Partner | |

Mae'n rhannu ei elw trethadwy amcangyfrifedig o £22,000 â 365 i gael cyfradd ddyddiol o £60.27.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3 | Chi | £60.27 | Eich Partner | |

Bu Berwyn yn cynnal ei fasnach am 239 o ddiwrnodau yn ystod cyfnod ei ddyfarniad.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4 | Chi | 239 | Eich Partner | |

Mae'n lluosi nifer y diwrnodau yng nghyfnod y dyfarniad pan oedd yn cynnal ei fasnach (239) â'r gyfradd ddyddiol (£60.27) i gyfrifo'r elw trethadwy ar gyfer cyfnod y dyfarniad (£14,404 heb gynnwys ceiniogau).

Mae Berwyn yn nodi £14,404 ym mlwch 2.4 ar y Datganiad o Ddyfarniad.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5 | Chi | £14,404 | Eich Partner | £ |

